# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN**

Dyddiad ac Amser

**4.00 y.h., DYDD MERCHER, 16EG MAWRTH, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol / Virtual Meeting**

I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni.

Pwynt Cyswllt

**Sioned Mai Jones**

**01286 679665**

**SionedMaiJones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mawrth, 8 Mawrth 2022)

# CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN

## AELODAETH

**<u>Cynghorwyr Gwynedd</u>**

**Anwen Davies**
**Simon Glyn**
**John Brynmor Hughes**
**Aled Wyn Jones**
**Gareth Williams**

**<u>Eraill</u>**

**Enwebeion Cynghorau Cymuned Aberdaron, Buan, Botwnnog, Clynnog, Llanbedrog, Llanaelhaearn, Llanengan, Nefyn, Pistyll a Thudweiliog.**

**Pencampwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd**

**<u>Enwebeion yr asiantaethau/sefydliadau canlynol</u>**

**Ymddiriedolaeth Genedlaethol,**
**Cyfoeth Naturiol Cymru,**
**Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor,**
**Cyfeillion Llŷn,**
**Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr,**
**Undeb Amaethwyr Cymru,**
**Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn,**
**Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig/CPRW,**
**Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd,**
**Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn.**

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2021, fel rhai cywir.

## 5. CYNLLUN GWEITHREDU ADFER NATUR 10 - 11

I ddarparu gwybodaeth am y Cynllun Gweithredu Adfer Natur.

## 6. PROSIECTAU CYFALAF AHNE LLŶN 12 - 13

I ddarparu gwybodaeth am Brosiectau Cyfalaf AHNE Llŷn.

## 7. AELODAETH Y CYDBWYLLGOR YMGYNGHOROL 14 - 15

Bleddyn Jones, Swyddog AHNE i roi adroddiad ar aelodaeth y Cydbwyllgor Ymgynghorol a'r trefniadau sydd ar y gweill i newid Aelodau Cyngor Gwynedd.

## 8. CYNLLUN RHEOLI'R AHNE 16 - 17

Bleddyn Jones, Swyddog AHNE i roi adroddiad ar Gynllun Rheoli'r AHNE.

# CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL LLŶN 17/11/2021

**Yn bresennol**:

Cyng. Gruffydd Williams (Cadeirydd)

**Aelodau:** Y Cynghorwyr Anwen J. Davies, John Brynmor Hughes, Aled Wyn Jones, Angela Russell (Cyngor Gwynedd) ynghyd ag Andrew Davidson (Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd), Noel Davey (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig), Jina Gwyrfai (Cyngor Cymuned Llanaelhaearn), T. Victor Jones (Cyngor Cymuned Llanbedrog), Molly Lovatt (Cyfoeth Naturiol Cymru) a Wenda Williams (Cyngor Cymuned Aberdaron).

**Swyddogion:** Bleddyn P. Jones (Swyddog Gwasanaeth AHNE), Morus Llwyd Dafydd (Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn), Wyn Williams (Rheolwr Cefn Gwlad) a Sioned Mai Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Presennol ar gyfer eitem 5:** Cynan Jones (Ymgynghorydd) a Wil Parry (O ddrws i ddrws).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Gareth Williams, Andy Godber (Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Rhydian Owen (Undeb yr Amaethwyr) a Sian Parri (Cyngor Cymuned Tudweiliog).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi.

## 3. MATERION BRYS

Adroddwyd fod John Gosling, Partneriaeth Twristiaeth Abersoch a Llŷn bellach wedi sefyll lawr a diolchwyd iddo am ei wasanaeth ar y Cydbwyllgor hwn.

Nodwyd pwysigrwydd i'r Cydbwyllgor gyflwyno sylwadau yn yr ymgynghoriad ar ddatblygiad Clwyd Alun ym Mhenrhos. Roedd rhai aelodau yn boenus ynghylch graddfa'r datblygiad a'r holl dai fydd yn gynwysedig o hynny. Gobeithir y bydd darpariaeth ddigonol i gwrdd â'r anghenion nyrsio a'r prinder cartrefi henoed yn y Sir. Bydd y Swyddog Gwasanaeth AHNE yn rhannu linc i'r ymgynghoriad efo'r Cydbwyllgor fel bod modd i aelodau gyflwyno sylwadau.
**Penderfynwyd yn ogystal i'r Swyddog AHNE Llŷn grynhoi sylwadau'r Cydbwyllgor a'u cyflwyno yn yr ymgynghoriad.**

Trafodwyd y bwriad i osod Paneli Solar ar dir Coed y Wern. Nodwyd nad oes llawer o fanylion pellach ar hyn o bryd; nid oes cais cynllunio wedi ei ddarparu eto ond yn hytrach cais cyn-gynllunio. Mae'n debyg y bydd cais cynllunio yn cael ei gyflwyno maes o law. Ychwanegwyd fod y safle hwn ddim yn yr AHNE ond yn hytrach yn weladwy o'r AHNE. Adroddwyd fod y Cydbwyllgor wedi gofyn i gael rhoi mewnbwn ar faterion o'r fath.
**Penderfynwyd cynnal Cyfarfod Arbennig i drafod datblygiad posib Paneli Solar ar dir Coed y Wern pan yn berthnasol (cynamserol ar hyn o bryd).**

Nodwyd y bydd Cynhadledd Twristiaeth yn cael ei gynnal ar 30 Tachwedd, 2021 o'r enw 'Cynhadledd Twristiaeth, Digwyddiad Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035'. Gofynnwyd i'r Swyddog Gwasanaeth AHNE ddarparu manylion i aelodau'r Cydbwyllgor sy'n dymuno cymryd rhan.
**Penderfynwyd fod gwahoddiad yn cael ei anfon i aelodau'r Cydbwyllgor i fynychu'r Gynhadledd.**

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cydbwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26 Mai 2021, fel rhai cywir.

Cymerwyd y cyfle i adrodd nôl ar sefyllfa'r Fryngaer yn Ninas Dinlle, ble roedd pryder ynghylch cyflwr y Fryngaer a'r dirywiad oherwydd erydiad. Cynhaliwyd cyfarfod nôl ym mis Gorffennaf rhwng y Swyddog AHNE, Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd a chynrychiolydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Phennaeth YGC ble trafodwyd yr erydiad o'r môr a'r tir. Penderfynwyd gadael i natur gymryd ei gwrs; adroddwyd nad oes polisi gwarchod na chyllid yn bodoli. Darllenodd y Swyddog Gwasanaeth AHNE y llythyr yr oedd wedi ei dderbyn gan CADW fel ymateb.

## 5. BWS ARFORDIR LLŶN

Croesawyd yr Ymgynghorydd Cynan Jones a Wil Parry, O Ddrws i Ddrws i'r cyfarfod. Cyflwynwyd yr adroddiad gan y swyddog O Ddrws i Ddrws ble nododd mai amcan y prosiect Bws Fflecsi Llŷn oedd cynnig gwasanaeth oedd yn fwy hyblyg i deithwyr oedd eisiau defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn Llŷn.

Ymhelaethodd fod y prosiect Bws Fflecsi Llŷn wedi dod i fodolaeth yn Haf 2021 yn dilyn cynnig gan Drafnidiaeth i Gymru yn Ebrill 2021 i redeg Peilot Fflecsi yn Llŷn. Gwasanaeth bws ar alw, cornel i gornel oedd hwn; fe yrrwyd ymlaen efo'r Peilot gan fod cynlluniau eisoes yn bodoli i wneud bws arfordir Llŷn yn wasanaeth ar alw. Byddai'r cynllun hwn yn gwasanaethu ardaloedd ychwanegol i'r rhai oedd ar lwybr bws arfordir Llŷn. Y bwriad oedd creu gwasanaeth atodol i'r gwasanaethau cyhoeddus ac annog trigolion lleol ac ymwelwyr i ddefnyddio llai ar eu ceri. Gellir archebu'r bws dros y ffôn neu drwy'r Ap.

Adroddwyd fod y sefyllfa Cofid19 wedi creu ansicrwydd yn enwedig yng ngwanwyn 2021 pan roedd hi'n anodd cynllunio ymlaen llaw. Cydnabyddwyd fod pethau wedi mynd o'i le; roedd oedi ynghylch yr Ap a materion hawlfraint ynglŷn â diweddaru taflen gan y dylunydd. Ymddiheurwyd na chafodd yr AHNE na Chyfoeth Naturiol Cymru'r sylw a'r cyhoeddusrwydd haeddiannol. Bydd y gwasanaeth yn parhau yn 2022, gobeithiwyd y bydd yr amgylchiadau yn fwy sefydlog bryd hynny.

Tywysodd yr Ymgynghorydd y Cydbwyllgor drwy ei werthusiad o'r gwasanaeth gan nodi fod yr Ap wedi gweithio yn eithriadol o dda, e.e. gwybodaeth gyfredol am leoliad y bws yn cael ei ddarparu'n amserol. Roedd y bws hefyd yn cyrraedd pen ei daith yn amserol os nad cynnar. Nodwyd fod y gwasanaeth bws Fflecsi Llyn wedi sgorio 4.9 allan o 5 ar yr Ap gan ddefnyddwyr y gwasanaeth oedd yn galonogol iawn. Ychwanegodd yr Ymgynghorydd ei fod wedi derbyn rhagor o ystadegau heddiw, bydd yn ychwanegu'r rhain i'w adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau:-
- Gofynnwyd o fewn pa gyfnod gafodd y ffigwr o 1590 o geisiadau eu derbyn.
- Mynegwyd diddordeb i gymharu nifer teithwyr o wasanaeth bws 2019 i'r niferoedd yma ac os oedd modd gwneud hyn.

- Gofynnwyd faint o rybudd oedd ei angen i archebu'r bws. Pryderwyd ein bod yn ymadael â gwasanaeth sefydlog a dibynadwy efo gwasanaeth fyddai'n anodd ei ddefnyddio ar y diwrnod.
- Holiwyd faint o dwristiaid a faint o bobl leol oedd yn defnyddio'r gwasanaeth.
- Cwestiynwyd os oedd y gwasanaeth hwn wir yn lleihau ôl-troed carbon.
- Pryderwyd y byddai'r gwasanaeth hwn yn gwanhau'r gwasanaeth bws cyhoeddus a chwestiynwyd beth fyddai'n digwydd i'r gwasanaeth craidd yno petai llai a llai yn ei ddefnyddio a grantiau fel y fenter hon yn rhedeg allan.
- Awgrymwyd i edrych ymhellach na cherddwyr ac i gysidro darparu gwasanaeth tebyg gyda'r nos.

Mewn ymateb, nodwyd:
- Bod 1590 o geisiadau wedi eu derbyn rhwng 19 Gorffennaf 2021 i 1 Tachwedd 2021, o'r rhain fe gafodd 1469 o deithiau eu cynnal.
- Ei bod yn anodd cymharu'r prosiect yma oherwydd ei fod yn wasanaeth gwahanol i'r arfer, h.y. yn wasanaeth sy'n cario llai o deithwyr, ac oherwydd y cyfnod Cofid19.
- Y gallai'r bws gael ei archebu mewn mater o oriau ond yn gyffredinol, cyfartaledd archebu ar yr Ap oedd 2 ddiwrnod ymlaen llaw. Nodwyd mai £3 oedd pris siwrnai unffordd, ychwanegwyd fod y pris yma yn rhatach o lawer na phris Tacsi.
- Bod angen darganfod ffordd i fesur faint o dwristiaid a faint o bobl leol sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Gwerthfawrogwyd y sylw ac awgrymwyd efallai fod modd gofyn beth yw'r rheswm dros y siwrnai fyddai yn rhoi mwy o wybodaeth am bwy sy'n defnyddio'r gwasanaeth.
- Fod y dystiolaeth o lefydd eraill yn cefnogi fod y gwasanaeth hwn yn lleihau ôl-troed carbon. Ychwanegwyd y bydd O Ddrws i Ddrws efo bws mini trydan flwyddyn nesaf fydd yn lleihau ôl troed carbon yn sylweddol.
- Mewn ymateb i bryderon am y gwasanaeth bws cyhoeddus, eglurwyd mai pwrpas y prosiect hwn oedd i weld os oes yna ffordd wahanol o ddarparu'r gwasanaeth craidd. Cydnabwyddwyd fod angen mwy o waith i edrych ar integreiddio yn hytrach na dyblygu. Ychwanegwyd fod y gwasanaeth bws cyhoeddus fel y mae bellach yn aneffeithiol a chynigiwyd bod angen i'r gwasanaeth yno fod yn fwy hyblyg. Byddai'r Swyddog O Ddrws i Ddrws yn falch iawn o weld un o ddarparwyr gwasanaeth bysiau cyhoeddus yn rhedeg y gwasanaeth yma gan ei fod mor gyfleus a hyblyg ac yn lleihau milltiroedd gwag y bws sy'n ei wneud yn fwy cost effeithiol.
- Eglurwyd fod Trafnidiaeth i Gymru a Chyngor Gwynedd yn cynnal adolygiad o holl rwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus Gwynedd ar hyn o bryd.

**PENDERFYNIAD**

**Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a dderbyniwyd yn yr adroddiad Gwerthusiad Bws Fflecsi Llŷn a'r cyflwyniad llafar gan Cynan Jones, Ymgynghorydd a Wil Parry, O Ddrws i Ddrws.**

## 6. SŴN AWYRENNAU DROS AHNE LLŶN

Cafwyd diweddariad ar y mater brys hwn a godwyd yng nghyfarfod mis Mai. Rhedwyd drwy'r adroddiad gan nodi fod llythyr wedi cael ei yrru gan y Cydbwyllgor er mwyn datgan pryder am y sŵn awyrennau o RAF Fali oedd yn hedfan dros AHNE Llŷn. Nodwyd yr ymateb a dderbyniwyd gan Arweinydd Sgwadron yn y Fali a oedd yn adrodd eu bod yn ceisio'u gorau i hyfforddi dros y môr pan yn bosib. Yn ychwanegol, dywedodd Jeremy

Quinn, fel ymateb i gwestiwn Hywel Williams AS, fod yr RAF am gynyddu lefelau ymgysylltu â'r cymunedau a chyhoeddi gwybodaeth fwy rhagweithiol ar eu gwefan.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion â ganlyn gan aelodau:-

- Nodwyd fod lefel y sŵn wedi lleihau dros y misoedd diwethaf ac o ganlyniad fod nifer y cwynion gan bobl leol wedi lleihau.
- Roedd rhai Aelodau wedi ymweld â RAF Fali ble nodwyd fod yr offer bellach ganddynt i'w galluogi i hedfan y Texan T1 dros y môr.

Mewn ymateb nodwyd:

- Y parheir i gadw golwg ar y sefyllfa.

**PENDERFYNIAD**

**Penderfynwyd derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad.**

## 7. PARTNERIAETH GWYRDDNI

Darparwyd gwybodaeth am GwyrddNI, mudiad Newid Hinsawdd newydd sydd wedi ei sefydlu yng Ngwynedd. Rhedwyd drwy ddatganiad Swyddog Prosiect GwryddNi, Elis Smits gan nodi efallai y gall fynychu cyfarfod o'r Cydbwyllgor hwn yn y dyfodol i roi diweddariad pellach i'r grŵp. Eglurwyd mai bwriad y mudiad yw annog trafodaethau o amgylch newid hinsawdd a dod a phobl ynghyd i ddysgu a gweithredu yn lleol. Nodwyd fod mwy o wybodaeth ar gael ar y we os fydd aelodau'r Cydbwyllgor yn dymuno cael golwg neu os fydd y Swyddog Gwasanaethau AHNE yn derbyn rhagor o wybodaeth yna gallai ei rannu efo'r Cydbwyllgor.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau:-

- Nodwyd er gwybodaeth gan aelod Cyngor Cymuned Llanbedrog ei fod eisoes wedi cael sgwrs dros y ffôn efo Elis Smits yn dilyn darllen ei ddatganiad. Adroddwyd y bydd Mr Smits yn mynychu cyfarfod Prynhawn Difyr fory ym Mhwllheli er mwyn cyflwyno ei hun a rhoi cyflwyniad i'r grŵp.

**PENDERFYNIAD**

**Penderfynwyd derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad gan Swyddog Prosiect GwyrddNi, Elis Smits.**

## 8. DYNODIAD AWYR DYWYLL

Tywyswyd y Cydbwyllgor drwy Adroddiad y Swyddog AHNE gan ofyn iddynt gefnogi'r argymhelliad drwy gefnogi cais i'r IDA (International Dark Sky Association) am statws Parc Awyr Dywyll i'r ardal.

Adroddwyd fod trafodaethau eisoes wedi digwydd rhwng staff yr Uned a staff yr IDA, sydd yn gefnogol iawn i'r bwriad o wneud cais am statws awyr dywyll ar gyfer AHNE Llŷn. Credwyd fod gan yr ardal hon achos cryf i dderbyn y dynodiad. Roedd yr IDA o'r farn y byddai statws Parc Awyr Dywyll Rhyngwladol yn hytrach na statws Cymuned yn fwy priodol i'r ardal hon ac yn adlewyrchiad gwell o safon yr awyr dywyll yma.

Ychwanegwyd y byddai'r cais yn cael ei gyflwyno flwyddyn nesaf petai'r Cydbwyllgor yn gefnogol.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau:-

- Mynegwyd fod rhai o'r Cynghorau Cymuned/Tref yn ansicr ynglŷn â chefnogi'r cais. Adroddwyd fod merched yn bennaf yn dueddol o fod ofn y tywyllwch wrth gerdded gyda'r nos a bod llawer o'r pryderon yn gwreiddio o hyn.
- Gofynnwyd i'r Swyddog Gwasanaeth AHNE fynychu Cyfarfod Cyngor Tref Nefyn, ynghyd a Chynghorau Cymuned eraill, i roi cyflwyniad i'r aelodau ac i'w darbwyllo. Credwyd fod lle i gael trafodaeth bellach ar y mater yma.
- Mynegodd Aelod ei fod yn erbyn cefnogi'r cais oherwydd rhesymau diogelwch a phryderai y byddai'r dynodiad yn cael ei ddefnyddio fel rheswm yn erbyn rhai materion e.e. i beidio â darparu mwy o oleuadau lonydd.
- Yn ogystal roedd pryderon o amgylch ffermydd; dadleuwyd fod ffermydd angen goleuni mwy llachar oherwydd bod gwaith yn mynd ymlaen yn y nos yno.
- Holwyd beth oedd y gwahaniaeth rhwng statws Cymuned a Pharc Awyr Dywyll.
- Dymunai rai o aelodau'r Cydbwyllgor gefnogi'r cais hwn; nodwyd mai pwrpas y dynodiad fydd i wneud yn siŵr fod goleuadau yn tywynnu yn y llefydd sydd eu hangen nhw ac i leihau gwastraff a llygredd golau.
- Dadleuwyd fod yr ardal hon yn addas ar gyfer y prosiect a bod llawer yn cael mwynhad o edrych ar y sêr yn yr ardal.
- Cyniwyd i ohirio'r mater er mwyn cael mwy o ymgynghori.

Mewn ymateb, nodwyd:

- Nad oes bwriad i ddiffodd goleuadau stryd. Yn hytrach bwriedir hyrwyddo, addysgu, cynnal digwyddiadau a defnyddio arfer da, e.e. pwyntio goleuadau lawr, defnyddio goleuadau sydd ddim mor llachar.
- Bod statws Parciau Awyr Dywyll yn uwch na statws Cymuned am eu bod yn fwy o ran maint a dim gymaint ohonynt. Eglurwyd y byddai'r ardal AHNE gyfan yn derbyn statws Parc.
- Fod llawer o fuddion i'w cael o dderbyn y dynodiad uchod a sicrhawyd na fydd y dynodiad yn amharu ar bobl sy'n byw yn yr ardal.
- Fod y Swyddog Gwasanaeth AHNE yn fodlon mynychu cyfarfodydd Cynghorau Tref/Cymuned neu gael sgwrs bellach efo Aelodau sy'n ansicr o'r cynllun a dod a'r mater yn ôl i'r Cydbwyllgor hwn. Adroddodd y byddai'n braf derbyn cefnogaeth y Cydbwyllgor.
- Y bydd ymgynghori pellach ar y pwnc hwn. Bydd y Swyddog Gwasanaeth AHNE yn trefnu cyfarfod rhithiol at ddechrau'r flwyddyn fan gynharaf a'n gwahodd yr holl Gynghorau Cymuned/Tref o fewn yr AHNE er mwyn rhoi'r cyfle i'r Cynghorau hyn holi cwestiynau. Ategwyd nad oes digon o adnoddau i fynd o amgylch pob Cyngor Cymuned/Tref yn unigol.
- Fod cyfarfod rhithiol wedi ei drefnu ar gyfer Cynghorau Tre/ Cymuned yn flaenorol sydd ychydig yn rhwystredig, ond y byddai'r Swyddog AHNE yn ail drefnu er mwyn rhoi cyfle pellach.

**PENDERFYNIAD**

**Penderfynwyd gohirio'r mater yma er mwyn cael mwy o ymgynghori. Bydd y Swyddog Gwasanaeth AHNE yn trefnu cyfarfod rhithiol at ddechrau'r flwyddyn a gwahodd yr holl Gynghorau Cymuned / Tref o fewn yr AHNE.**
**Bydd y Swyddog AHNE Llŷn yn anfon gwybodaeth ymlaen i'r Cynghorau Cymuned; bydd swyddog yn cysylltu efo Clercod y Cynghorau Cymuned i drefnu.**

## 9. PROSIECTAU CYFALAF

Darparwyd gwybodaeth am brosiectau cyfalaf AHNE Llŷn gan roi diweddariad ar brosiectau eleni sef:

- Atgyweirio Trac Porth Meudwy – Nodwyd fod cyfraniad ariannol wedi ei wneud yn dilyn y tirlithriad a amharodd ar y ffordd. Rhannwyd fod y gwaith bellach wedi ei gwblhau a'r trac wedi ei drwsio.
- Gwelliannau yn ardal y Cei, Trefor – Adroddwyd fod bras-gynlluniau tendrau wedi cael eu cwblhau a gobeithir dechrau ar y gwaith yn fuan yn y flwyddyn newydd.
- Gwelliannau i gyfres o hawliau tramwy yn yr AHNE – Nodwyd fod 6 llwybr i gyd a bod y rhan fwyaf o'r gwaith wedi cael ei osod. Ychwanegodd y Swyddog Gwasanaeth AHNE ei fod yn hyderus y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau o fewn yr amserlen.
- Adnewyddu toiledau Lôn Gam, Nefyn – Eglurwyd fod y gwaith cefndirol wedi ei wneud ynglŷn â chostau cyn y tirlithriad diweddar, sydd wedi dal pethau yn ôl. Adroddwyd bellach fod cadarnhad y gall y gwaith symud yn ei flaen; mae'r dogfennau tendro yn cael eu paratoi ar hyn o bryd.

Ychwanegwyd fod sgyrsiau wedi digwydd efo Llywodraeth Cymru. Rhaid aros nes bydd y gyllideb wedi ei osod gan y Senedd cyn derbyn cadarnhad fod arian ar gael at y flwyddyn ariannol 2022/23. Ar ôl derbyn y cadarnhad hwn bydd y Cydbwyllgor yn gwybod faint o arian fydd ar gael, bydd cyfle wedyn i ymgynghori. Nodwyd bydd y themâu ar gyfer y prosiectau yn parhau fel y flwyddyn bresennol.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau:-

- Holwyd faint o arian gafodd ei roi i'r prosiect Porth Meudwy.

Mewn ymateb nododd y Swyddog Gwasanaeth AHNE fod cyfraniad o £30k wedi cael ei wneud at y gwaith yma. Ychwanegwyd fod y gwaith yn cael ei reoli gan Ymgynghoriaeth Gwynedd.

**PENDERFYNIAD**

**Penderfynwyd derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 4.00yh a daeth i ben am 5.50yh

____________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Mawrth 16eg 2022 |
| **TEITL** | Cynllun Gweithredu Adfer Natur |
| **PWRPAS** | Cyflwyno gwybodaeth |
| **AWDUR** | Swyddog Bioamrywiaeth |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr Wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Roedd 2019 yn drobwynt o ran cydnabod yr argyfwng natur gynyddol a chynyddu camau gweithredu ar gyfer bioamrywiaeth. Fe gyhoeddwyd argyfwng hinsawdd gan Lywodraeth Cymru, gyda Chyngor Gwynedd ei hun yn dilyn ym mis Mawrth 2019. Mewn ymateb, cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Adfer Natur Genedlaethol a rhan 1, "Ein strategaeth ar gyfer Natur", yn nodi'r ymrwymiad i wrthdroi'r golled mewn bioamrywiaeth yng Nghymru a'r amcanion ar gyfer gweithredu (Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2020 i 2021 (llyw.cymru);). Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi datgan argyfwng natur ym mis Mehefin 2021.

1.2 Yn dilyn ymlaen o hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i bob Awdurdod Lleol, Parc Cenedlaethol ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ledled Cymru i gynhyrchu Cynllun Gweithredu eu hunain, yn manylu ar sut y dylai pob ardal fynd i'r afael ac adfer natur.

## 2.0 CYNLLUN GWEITHREDU ADFER NATUR GWYNEDD A LLŶN

2.1 Mae Gwynedd a Llŷn wedi penderfynu cynhyrchu Cynllun Gweithredu ar y cyd, a fydd nid yn unig yn anelu at fynd i'r afael â'r amcanion cenedlaethol, ond hefyd yn mynd i'r afael â'r heriau a'r pryderon amgylcheddol yn nes at adref. Er enghraifft, pan ofynnwyd i gymunedau Llŷn beth sy'n dda am eu hardal yn ystod ymgynghoriadau diweddar ar gyfer prosiect Ardal Ni, "Amgylchedd ac agosatrwydd yn atyniadau naturiol e.e.. mynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad" sgoriodd uchaf. Rydym am sicrhau bod gennym gynllun yn ei le sy'n sicrhau bod ein cymunedau a thrigolion lleol ar draws Gwynedd a Llŷn yn gallu parhau i fwynhau ac elwa o'n byd natur ein hunain.

2.2 Mae'r Cynllun Gweithredu ei hun yn ddogfen bolisi yr ydym yn ei chynhyrchu a fydd yn cynorthwyo adferiad natur sir Gwynedd ac Ardal Harddwch Llŷn. Mae'r ddogfen wedi'i hanelu at amrywiaeth eang o randdeiliaid, partneriaid, grwpiau ac unigolion sydd â diddordeb mewn adferiad byd natur neu sy'n allweddol iddo. Byddwn yn cynnal ymgynghoriadau ar gyfer grwpiau amrywiol gan ddechrau ddiwedd y gwanwyn eleni (2022). Bydd canlyniadau'r ymgynghoriadau hyn yn cael eu defnyddio i arwain a sbarduno gweithred tuag at adferiad natur yng Ngwynedd a Llŷn, felly byddem yn eich annog i gymryd rhan lle y gallwch.

2.3 Am ragor o wybodaeth am y Cynllun Gweithredu Adfer Natur, ewch i wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru drwy glicio ar y ddolen ganlynol: Wales Biodiversity Partnership - Nature Recovery Action Plan (biodiversitywales.org.uk)

**3.0 ARGYMHELLIAD**

3.1 Derbyn yr wybodaeth.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Mawrth 16eg 2022 |
| **TEITL** | Prosiectau Cyfalaf AHNE Llŷn |
| **PWRPAS** | Darparu gwybodaeth i aelodau |
| **AWDUR** | Swyddog AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys newyddion am brosiectau cyfalaf AHNE Llŷn. Cynllun grant gan Llywodraeth Cymru i gefnogi prosiectau cyfalaf yn y Parciau Cenedlaethol a'r AHNE yw Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy (TCLC).

## 2.0 PROSIECTAU CYFALAF TCLC 2021-22

2.1 Y prosiectau ar gyfer y flwyddyn ariannol hon (2021-22) yw :

- Atgyweirio Trac Porth Meudwy, Aberdaron
- Gwelliannau yn ardal y Cei, Trefor
- Gwelliannau i gyfres o hawliau tramwy yn yr AHNE
- Adnewyddu toiledau Lôn Gam, Nefyn

2.2 Mae'r gwaith ar drac Porth Meudwy wedi ei gwblhau ers haf 2021. Mae gwaith ar y tri prosiect arall wedi bod yn mynd ymlaen dros y gaeaf a'r gwaith bellach bron a chael ei gwblhau. Rhagwelir y bydd y grant a gynigiwyd yn cael ei hawlio yn llawn.

## 3.0 PROSIECTAU CYFALAF Y DYFODOL

3.1 Rydym wedi derbyn cadarnhad y bydd cyllid cyfalaf ar gael i'r 5 AHNE a'r 3 Parc Cenedlaethol eto yn y flwyddyn ariannol nesaf. Hyd yma nid yw cyfanswm y grant wedi ei nodi na'r nifer o flynyddoedd (mae posibilrwydd y bydd dros 3 blynedd).

3.2 Mae'r themâu ar gyfer prosiectau cyfalaf y dyfodol yn parhau fel y flwyddyn bresennol sef:

- Bioamrywiaeth ac adfer natur
- Dadgarboneiddio

- Cymunedau gwydn a gwyrdd
- Twristiaeth Gynaliadwy

3.3 Rydym yn disgwyl cadarnhad o gyfanswm y grant a rheoliadau'r terfynol cynllun grant TCLC yn fuan ac yn y cyfamser yn ystyried prosiectau addas.

## 4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Derbyn yr wybodaeth.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Mawrth 16eg 2022 |
| **TEITL** | Aelodaeth y Cydbwyllgor Ymgynghorol |
| **PWRPAS** | Darparu gwybodaeth i Aelodau |
| **AWDUR** | Swyddog AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am aelodaeth y Cydbwyllgor Ymgynghorol a'r trefniadau sydd ar y gweill i newid Aelodau Cyngor Gwynedd. Yn unol â Chyfansoddiad y Cydbwyllgor mae'r newidiadau hyn yn cymryd lle yn dilyn etholiadau lleol, fel y rhai a fydd yn digwydd ar Fai y 5ed eleni.

1.2 Ar hyn o bryd mae 11 ward oddi mewn y ffin yr AHNE (yn rhannol neu gyfangwbl) sef: Aberdaron, Abersoch, Buan, Botwnnog, Clynnog, Llanaelhaearn, Llanengan, Llanbedrog, Morfa Nefyn, Nefyn, a Tudweiliog. Fodd bynnag yn dilyn adolygiad ffiniau bydd rhan o ward Llanengan a Llanbedrog yn uno yn ogystal â Morfa Nefyn a Thudweiliog ac Aberdaron a Botwnnog. Cyfanswm y wardiau yn yr AHNE wedyn fydd 8.

## 2.0 AELODAU PRESENNOL CYNGOR GWYNEDD

2.1 Yn dilyn yr etholiadau lleol diwethaf, a gynhaliwyd ar 4ydd o Fai 2017 daeth Aelodau Cyngor Gwynedd dros y wardiau canlynol ar y Cydbwyllgor:

- Buan
- Botwnnog
- Llanaelhaearn
- Llanengan
- Tudweiliog

2.2 Yn ychwanegol, penderfynwyd y dylai Pencampwr Cyngor Cefn Gwlad Gwynedd fod yn aelod o'r Cydbwyllgor. Mae'r Pencampwr Cefn Gwlad presennol yn cynrychioli ward Llanbedrog yn yr AHNE.

2.3 Yn ôl y drefn sydd wedi ei sefydlu mae tymor yr aelodau uchod yn awr yn dod i ben. Diolchir i'r Aelodau am eu hamser a'u hymroddiad i les Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn dros y 5 mlynedd ddiwethaf.

2.4 Yn dilyn yr Etholiad yr arfer yw rhoi gwahoddiad i Aelodau dros wardiau eraill yr AHNE. Mae'r adolygiad ffiniau yn cymhlethu y trefniant ychydig a sylweddolir yn bydd elfen o or-gyffordd gyda'r wardiau sydd wedi eu cynrychioli yn y 5 mlynedd

diwethaf. Y bwriad yw gwahodd Aelodau dros yr wardiau canlynol i eistedd ar y Cydbwyllgor am y cyfnod nesaf: **Pen Draw Llŷn** (Aberdaron/Botwnnog**), Abersoch a Llanengan**, **Clynnog, Morfa Nefyn a Thudweiliog a Nefyn**. Bydd Pencampwr Cefn Gwlad Gwynedd hefyd yn parhau yn aelod.

## 3.0 AELODAU ERAILL Y CYDBWYLLGOR

3.1 Y sefydliadau eraill sydd gan le ar y Cydbwyllgor Ymgynghorol ydi:

- Cynghorau Cymuned/ Tref yn yr AHNE
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn
- Cyfoeth Naturiol Cymru (aelod heb bleidlais)
- Cyfeillion Llŷn
- Ymgyrch Dioglelu Cymru Wledig
- Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn
- Undeb Amaethwyr Cymru
- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
- Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
- Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor
- Y Sector Fusnes (sedd wag)

3.2 Mae'r Sefydliadau/ Mudiadau hyn yn cael dewis unigolion eu hunain i'w cynrychioli ar y Cydbwyllgor.

## 4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Derbyn yr wybodaeth.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Mawrth 16eg 2022 |
| **TEITL** | Cynllun Rheoli'r AHNE |
| **PWRPAS** | Cyflwyno gwybodaeth |
| **AWDUR** | Swyddog AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr Wybodaeth |

**1.0 CYFLWYNIAD**

1.1 Mae paratoi Cynllun Rheoli yn un o gyfrifoldebau Cyngor Gwynedd mewn perthynas â'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol o ganlyniad i Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

1.2 Nodir yn y Ddeddf fod angen i Awdurdodau perthnasol adolygu'r Cynllun Rheoli bob pum mlynedd ar ôl ei fabwysiadu'n wreiddiol. Cyfnod gweithredu y Cynllun Rheoli presennol yw 2015-20 a'r bwriad oedd adolygu'r Cynllun yn ystod 2019/2020. Yn anffodus mae nifer o ffactorau wedi amharu ar yr amserlen yn cynnyws y pandemig, gwaith ar brosiectau eraill a materion capasiti.

1.3 Mae gan y Cydbwyllgor Ymgynghorol rôl i'w chwarae yn y broses o adolygu'r Cynllun Rheoli.

**2.0 Y BROSES ADOLYGU**

2.1 Mae canllawiau wedi eu cyhoeddi i roi arweiniad i Awdurdodau a Chydbwyllgorau ar baratoi ac adolygu'r Cynlluniau Rheoli gan Cyngor Cefn Gwlad Cymru rai blynyddoedd yn ôl.

2.2 Yn ogystal ag adolygu'r Cynllun ei hun bydd hefyd angen adolygu'r asesiadau amgylcheddol cysylltiol sef:

- **Asesiad Amgylcheddol Strategol**
- **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Safleoedd Ewropeaidd)**

2.3 Wrth adolygu'r Cynllun Rheoli mae angen cymryd ystyriaeth o wybodaeth ddiweddaraf am nodweddion yr ardal, cynlluniau a strategatehau perthnasol, amcanion cadwraeth, prosiectau lleol ayb.

**3.0 CYNNYDD HYD YMA**

3.1 Beth amser yn ôl cynhaliawyd cyfarfod rhwng swyddogion y tri AHNE yng ngogledd Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Trafodwyd materion fel dulliau o ymgynghori, arfer da, cydweithio, Datganiadau Ardal ayb.

3.2 Mae adolygiad mewnol o'r Cynllun presennol wedi ei gynnal gan geisio

adnabod pa rannau oedd yn effeithiol a pa rai fyddai yn bosibl eu gwella.

3.3 Hefyd yn 2021 bu i'r Uned AHNE gomisiynnu diweddariad o Adroddiad ar Gyflwr yr AHNE. Mae'r adroddiad yma yn cynnwys gwybodaeth am gyflwr gwahanol nodweddion AHNE Llŷn a'r pwysau arnynt.

3.4 Bwriedir cynnwys adroddiad pellach gyda mwy o wybodaeth a thaflen amser ar gyfer adolygu'r Cynllun Rheoli i'r cyfarfod nesaf o'r Cydbwyllgor.

## 4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Derbyn yr wybodaeth.